# Cofnodion Cyngor Bro Llangwm 15/08/2019

**Presennol**: Awel Hughes, Mair Owen, Gwyndaf Jones, Gwyn Davies, Glenydd Evans, Sioned Jones, Gwynfryn Jones-Cadeirydd a chlerc.

**Cydymdeimlo -**

Mae'r pwyllgor wedi colli aelod a chynghorydd bro blaengar a gweithgar ers y cyfarfod diwethaf.
Dangoswyd ein cydymdeimlad a Hâf a Theulu Ystraf Fawr i gyd yn eu colled drom sydun o golli Berwyn Hughes. (Ber Ystrad)
Bydd yn chwith mawr ar ei ol.

Cadarnhawyd fod y cofnodion o'r cyfarfod diwethaf yn gywir.

1. **Materion yn codi or cofnodion blaenorol:**

**Y wefan -** Awel yn cadarnhau y bydd yn fyw yn y dyfodol agos.

**Cwt Hers** -Trafodaethau yn dal i fynd ymlaen rhwng Gwynfryn ac Eryl Vaughan.

**Arosfannau Bwsiau yr ardal** – Mae Gwynfryn wedi cael gair hefo Iffel, a bydd yn gwneud y Gwaith cynnal a chadw arnynt ac yn rhoi ei gostau i mewn ar y diwedd.

2. **Costau Gwynfryn fel Clerc tros dro** – Gwynfryn wedi gwneud ymholiadau pellach. Caniateir iddo roi ei gostau yn unig gan nad iw yn glerc swyddogol. Felly bydd yn rhoi costau o £500 i mewn.

3. **Cynllunio** – Iolo Prys Jones, Bryn Clochydd wedi cael caniatad i godi sied.

Dim cyllun arall yn berthnasol i'r ardal.

4. **Arianol** – Yswiriant i'w dalu £730. 25.

5. **Cynrychiolwyr newydd** – Penderfynnwyd roi hysbysebiad i fyny ar y bwrdd hysbysebu yn Dinmael a Llangwm.

6. **Clerc** – Un enw wedi dod i law. Cytunodd y pwyllgor i fynd ymlaen i wahodd Rhian Ellis i fynychu'r cyfarfod nesaf am sgwrs.

Gwynfryn O. Jones 30. 10. 2019